



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Swyddogaeth teuluoedd wrth roi organau: Adolygiad o dystiolaeth ryngwladol

Ymchwil crynodeb

Ymchwil gymdeithasol

Rhif y ddogfen: 45/2012

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig gorolwg cyffredinol o ymchwil sy'n bodoli yn cynnwys teuluoedd rhoddwyr organau posibl (rhai sydd wedi cydsynio i roi a rhai sydd wedi gwrthod).

Ffactorau sy'n gysylltiedig â chydsyniad teuluol i roi organau

Mae ymchwil yn amlygu nifer o ffactorau y gellid eu haddasu o bosibl sy'n gysylltiedig â chyfraddau o gydsyniad teuluol. Mae llawer o'r rhain yn ymwneud â'r cyswllt a wnaed gan staff meddygol â'r teulu, megis amseru a phrofiad y bobl broffesiynol sy'n gwneud y cais i roi.

Mae llawer o resymau'r teuluoedd dros wrthod rhoi a gofnodir yn y llenyddiaeth ymchwil yn deillio o gamwybodaeth neu gamddealltwriaeth. Er enghraifft ofnau am ddyraniadau annheg neu werthu organau (Vincent and Logan, 2012).

Canfuwyd fod nodweddion demograffig penodol yn gysylltiedig â chyfraddau cydsyniad teuluol uwch. Er enghraifft canfuwyd fod y cyfraddau cydsynio'n uwch pan fydd y rhoddwr yn wrywaidd (Siminoff et al., 2001), yn iau (Rodrigue et al., 2006; Van Leiden et al., 2010) neu o ethnigrwydd gwyn (Rodrigue et al., 2006).

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Gellid dadlau mai'r ffactor pwysicaf ym mhenderfyniad y teulu i gydsynio ai peidio yw eu gwybodaeth am ddymuniadau'r ymadawedig parthed rhoi organau. Pan fydd dymuniadau'r ymadawedig yn wybyddus, yn y mwyafrif o achosion, bydd aelodau'r teulu yn gwneud penderfyniadau cydsynio yn unol â'r dymuniadau hynny. Os yw'r perthnasau agosaf yn gwybod bod yr ymadawedig yn dymuno rhoi organau, mae cyfraddau cydsynio teuluol tua 90 y cant (NHSBT, 2012).

Profiad aelodau teuluoedd darpar roddwyr organau

Mae ymchwil meintiol yn awgrymu lle bo perthnasau'n gwybod dymuniadau'r ymadawedig, eu bod yn teimlo nad oedd rhaid iddynt 'wneud penderfyniad' ond eu bod yn cyflawni dymuniadau'r ymadawedig drwy hwyluso'r rhoi (Sque et al, 2003).

Mae profiad perthnasau agosaf darpar roddwyr organau yn un o straen a sensitifrwydd mawr. Mae'r gweithwyr iechyd proffesiynol y mae'r teulu'n ymwneud â nhw yn

bwysig wrth ffurfio'r profiad hwn. Canfu astudiaeth ansoddol yn y DU fod teimladau cadarnhaol neu negyddol ymatebwyr at y gweithwyr iechyd yn parhau am amser hir ar ôl marwolaeth y rhoddwr organau (Sque et al, 2003).

Cyfathrebu ag aelodau o'r teulu am ddymuniadau rhoi organau

Mae arolwg diweddar gan Lywodraeth Cymru (2012) yn arwyddo nad yw'r mwyafrif o oedolion sy'n byw yng Nghymru wedi trafod eu dymuniadau o ran rhoi organau gyda'u teulu.

Mae astudiaethau rhyngwladol wedi canfod bod unigolion sydd â gwybodaeth dda am roi organau a'r sawl sy'n bwriadu bod yn rhoddwr organau yn fwy tebygol o fod wedi trafod eu dymuniadau gyda'u teulu, o'u cymharu â'r sawl sydd â llai o wybodaeth a'r sawl nad ydynt yn dymuno rhoi eu horganau.

Casgliadau

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu cymhlethdod a natur aml-weddog penderfyniadau ynglŷn â rhoi organau, sy'n cynnwys nid yn unig

teulu'r ymadawedig, ond hefyd y staff gofal iechyd sy'n cysylltu â nhw.

Mae swyddogaeth y teulu'n hanfodol dan systemau rhoi organau optio i mewn ac optio allan. A chymryd mai ymwybyddiaeth perthnasau o ddymuniadau'r ymadawedig o ran rhoi yw un o'r ffactorau pwysicaf wrth bennu'r penderfyniad, gallai ymgyrchoedd yn hybu trafodaeth yn y teulu fod yn werthfawr.

Melissa Palmer

London School of Hygiene and Tropical Medicine, ar leoliad gwaith gyda Llywodraeth Cymru a noddir gan ESRC

ISBN 978 0 7504 8308 7